



Preswyliau'r Helfa Gelf drwy gydol mis Medi yng Nghanolfan Grefft Rhuthun

Bydd Canolfan Grefft Rhuthun, mewn partneriaeth â'r Helfa Gelf yn cyflwyno gwneuthurwyr a chrefftwyr preswyl yn ystod mis Medi 2018.

Hoffech chi ymwneud â'r Helfa Gelf eleni?

Helfa Gelf yw'r digwyddiad stiwdio agored mwyaf yng Nghymru ac maen nhw'n awr yn recriwtio artistiaid ar gyfer eu trydedd flwyddyn ar ddeg! Ydych chi'n artist sy'n byw yng Ngwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint neu Wrecsam? Yna mae yna ddigonedd o gyfleoedd cyffrous yn eich aros, yn cynnwys Rhaglenni Preswyl Canolfan Grefft Rhuthun ym Medi 2018 fel y'u nodir isod.

Preswyliau Helfa Gelf yng Nghanolfan Grefft Rhuthun

Cyfle galwad agored ar gyfer gwneuthurwyr a chrefftwyr yng Ngogledd Cymru. Rydyn ni, mewn partneriaeth â Helfa Gelf, yn chwilio am wneuthurwyr i gyfranogi yn y ddwy raglen breswyl sydd gennym ni'r mis Medi hwn. Bydd pob gwneuthurwr preswyl â'u gofod stiwdio eu hunain (stiwdio 2) i wneud ac arddangos eu gwaith drwy gydol y rhaglen breswyl (12 diwrnod i gyd).

(Dylech fod yn ymwybodol fod hwn yn ofod heb oruchwyliaeth ac na fydd Canolfan Grefft Rhuthun yn atebol am unrhyw ddifrod na cholledion yn ystod eich cyfnod preswyl os na fyddwch chi'n bresennol tra bo'r gofod ar agor i'r cyhoedd).

Bydd angen i raglen breswyl 2018 ymwneud â'n rhaglen ymgysylltu gyfredol o'r enw 'Mae Crefft yn Cyfri' - a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Yr haf hwn, wrth i ni ddathlu ein degfed pen-blwydd ers ail-lansio Canolfan Grefft Rhuthun, fe hoffem i elfen o'r preswyl eleni fod yn seiliedig ar un neu fwy o'n sioeau blaenorol i ddathlu'r 100 a mwy o arddangosfeydd a gynhaliwyd gennym ni yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf yn y Ganolfan. Oeddech chi'n hynod hoff o sioe serameg arbennig? Oeddech chi'n rhyfeddu at Emwaith, Pren neu Wydr? Gallai eich arddangosfa ddewisol ymwneud â'ch arfer chi eich hun – yn rhannu'r un deunydd, yr un broses a/neu themâu.

Helpwch ni i ddathlu blwyddyn ein pen-blwydd ac amlinellwch eich syniad/prosiect arfaethedig ar gyfer thema preswyl eleni yn y cais (manylion llawn ar y ffordd i ymgeisio isod).

Preswyl 1: fe'i cynhelir o ddydd Iau 6^{ed} – dydd Llun 17^{eg} o Fedi 2018

Preswyl 2: fe'i cynhelir o ddydd Mercher 19^{eg} – dydd Sul 30^{ain} o Fedi 2018

Yn ystod cyfnod y preswyl bydd yn ofynnol i chi ddylunio a chyflenwi'r elfennau canlynol ar ddau benwythnos yr Helfa Gelf ac fe hyrwyddir y rhain yn rhaglen ymgysylltu Canolfan Grefft Rhuthun.

- Profiad 'stiwdio agored' ar y dydd Gwener a'r dydd Sul lle gall ymwelwyr alw i mewn a gweld y crefftwr yn gweithio.

– Rhyw fath o sesiwn gyfranogi ymarferol (sesiwn galw heibio) ar y ddau ddydd Sadwrn.

Y Ffi

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn ffi o **£400** am y preswiliad (mae'r ffi yn cynnwys dyfeisio a chyflenwi'r sesiynau cyfranogi a'r defnyddiau)

Sut i ymgeisio

E-bostiwch amlinelliad byr o'ch prosiect arfaethedig (uchafswm o 300 o eiriau), datganiad artist, CV a 3 delwedd o'ch gwaith at **Rachel Rosen, Cydlynnydd Prosiect Helfa Gelf, ar e-bost rachel@helfagelf.co.uk <<mailto:rachel@helfagelf.co.uk>>**

Y terfyn amser i ymgeisio yw **5.00pm dydd Gwener, Gorffennaf 6ed 2018.**

Sylwch: Bydd angen i chi ymuno â'r Helfa Gelf / Art Trail er mwyn gallu cyfranogi yn rhaglen Preswiliad Helfa Gelf Canolfan Grefft Rhuthun.

Os hoffech chi wneud cais ar gyfer y preswiliadau hyn, dyw hi ddim yn rhy hwyr i newid dyddiadau eich stiwdio agored er mwyn sicrhau nad yw'r ddau ddigwyddiad yn gwrthdaro â'i gilydd - ond fe ddylech chi wneud hynny cyn gynted â phosib.



Yn agored yn ddyddiol o 10.00am – 5.30pm.
Mynediad am ddim. Maes parcio am ddim.

Canolfan Grefft Rhuthun,
Heol y Parc, Rhuthun,
Sir Ddinbych, LL15 1BB
Ffon: +44 (0)1824 704774
E-bost: thegallery@rccentre.org.uk